Mudiad Meithrin is the main provider of Welsh-medium early years education in Rhondda Cynon Taf. Currently they provide 13 Cylchoedd Ti a Fi (parent and toddler groups) and 25 Cylchoedd Meithrin (nursery groups) in the county borough; many run in conjunction with Flying Start.

Cylchoedd Ti a Fi are provided in the following locations:

Aberdare

Beddau

Efail Isaf

Church Village/Tonteg

Rhydyfelin

Taff's Well

Ynysybwl
Bronllwyn
Llanharri
Nant Dyrys (Ynyswen)
Porth
Thomastown
Treorchy

Cylchoedd Meithrin are available in the following locations:

Aberdare
Beddau
Cilfynydd
Den y Gryffalo (Glyncoch)
Efail Isaf
Evan James (Pontypridd)
Llanilltud Faerdref
Penderyn
Church Village
Rhydyfelin
Seren Fach (Mountain Ash)
Sêr Sardis (Pontypridd)
Taff's Well
Ynysybwl
Bronllwyn
Llanharri
Nant Dyrys (Ynyswen)
Pontyclun
Porth
Thomastown
Treorchy
Ynyshir + Wattstown

Mudiad Meithrin is hoping to open cylchoedd Ti a Fi in Gilfach Goch and Penygraig in the near future.

Primary Provision

Rhondda Cynon Taf at the moment has 13 Welsh-medium primary schools and 3 dual language primary schools:

Table 5: Welsh-medium primary schools, number of pupils (2015) and capacity (not including nursery places)

School	Pupil Numbers (2015)	Capacity	No. in nursery
Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon	299	355	41
Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdar	370	378	55
Ysgol Gynradd Gymraeg Bodringallt	142	171	21
Ysgol Gynradd Gymraeg Bronllwyn	212	242	35
Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau	206	265	36
Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James	295	392	48
Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg	294	315	45
Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant	330	334	39
Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn	271	272	42
Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn	168	198	38
Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Sion Norton	222	301	43
Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail	216	273	31
Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen	232	326	49
Ysgol Llanhari (Primary)*	30	201	36

In September 2012, Ysgol Gyfun Llanhari was re-designated as a Middle School, and is now able to admit pupils aged between 3 and 19 years. The Primary department of Ysgol Llanhari has the capacity to admit 240 pupils aged between 3

and 11 years and this provision can be expanded in future years if the demand for places increases.

It appears from the data noted above that there is sufficient capacity in most RCT primary schools to cater for any increased demand for Welsh-medium education in the future.

Table 6: Dual-language primary schools, number of pupils (2015) and capacity

School	Pupil Numbers (2015)	Capacity	No. in Nursery
Ysgol Dolau	177	442	20
Ysgol Heol y Celyn	111	414	22
Ysgol Penderyn	150	231	26

Based on 2015 data, there were approximately 3,725 pupils receiving Welsh-medium education in the primary sector (including nursery places) which equates to about 20% of the total cohort. This is an increase of 144 pupils since 2010.

According to the latest Welsh in Education Strategic Plan (WESP) report, the percentage of seven-year-old children taught through the medium of Welsh has remained fairly stable over the past five years. The percentage figure for 2015 was 19.5% compared to 20% in 2011.

In terms of the future development of Welsh-medium education, there are proposals in the Council's 21st Century Schools Programme to increase Welsh-medium provision in areas of the county where pressure on places currently exists. These include the relocation of Ysgol Gymraeg Tonyrefail to the current Tonyrefail Primary School site, which will increase capacity by at least 60 places and Ysgol Gymraeg Llwyncelyn extending to the adjacent Llwyncelyn Infants site, which will increase capacity at that school by at least 100 places. The new development at Ysgol Llanhari has also added sufficient Welsh-medium primary education capacity to meet current, and future forecasted demand in the south-west of the County Borough where plans are under way to support large-scale housing developments in the area.

Should there be an increased demand for Welsh-medium education in future years in other parts of the county, the local authority has appropriate plans in place to respond positively to ensure there are sufficient numbers of places available.

Secondary Provision

Rhondda Cynon Taf has 3 Welsh-medium comprehensive schools and a Welsh - medium Middle School:

Table 7: Welsh-medium comprehensive schools, number of pupils (2015) and capacity

School	Pupil Numbers (2015)	Capacity	6 th form
Ysgol Garth Olwg	818	1,114	134
Ysgol Rhydywaun	986	1,022	222
Ysgol Cymer Rhondda	773	1,025	164
Ysgol Llanhari (secondary)	412	951	69

In January 2012, 3,258 pupils received secondary education through the medium of Welsh, or 19% of the total secondary school population. In January 2015, the total had fallen slightly to 2,944 which represented 18.4% of the total secondary school population.

Transition rates between Key Stage 2 and 3 have been consistently high over recent years with more learners seeking to improve their language skills on transfer from primary to secondary school. The transfer rate in 2015 was 97.3%. In 2015, at the end of KS3, 19.2% of the Year 9 cohort in Rhondda Cynon Taf County Borough Council was assessed in Welsh First Language compared to 17% in 2011.

20% of the whole Year 11 cohort studied 5 or more qualifications through the medium of Welsh in 2011 but this figure had fallen to 17% in 2015, with new

developments at Bridgend College and Ysgol Llangynwyd attracting pupils to study outside of the county mainly from Ysgol Llanhari that has seen a decline in 14-19 age pupils from 510 in January 2011 to 176 in January 2015.

Whilst there is sufficient capacity at the moment in both Ysgol Cymer Rhondda and Ysgol Llanhari to accommodate an increase in numbers, pupil projections up to 2020 suggest that Ysgol Rhydywaun by then will be over capacity. The authority is already looking at proposals to expand the number of pupil places at the school.

Further Education

Coleg y Cymoedd informs all Welsh speaking students at induction that they may submit written work through the medium of Welsh subject to awarding body guidelines. Students are also encouraged to maintain and develop their speaking skills through attending informal activities at the College. They are also made aware of bilingual support available.

In 2014-15, 306 students followed Welsh-medium/bilingual modules across all campuses of Coleg y Cymoedd. In 2014-15, 10 new bilingual modules and 4 new Welsh-medium modules were made available to learners at Coleg y Cymoedd in Childcare and Education, Customer Care (Catering) and Customer Care (Health and Social Care).

The College has plans to increase its Welsh-medium provision over the coming years by introducing 'Iaith ar Waith' units in Customer Care in the following subjects – Tourism, Business, Creative Arts, Engineering and Construction.

Language Transmission in the Home

As noted above, where both parents can speak Welsh in Rhondda Cynon Taf, only 67% of children aged 3-4 years speak the language. In 2001 the comparable

transmission rates were 76%, which is a marked decline over a period of 10 years. This is lower than the all-Wales average of 82%. In households where only one parent can speak Welsh, the transmission rates recorded in Rhondda Cynon Taf in the 2011 Census are 46% which is a slight decrease from the 2001 figure of 47%.

The main scheme in Wales concerned with increasing the number of bilingual families who transmit the Welsh language to their children was the TWF project which was established in 2001 by the Welsh Language Board, but was disbanded by the Welsh Government earlier this year to be replaced by a scheme called 'Cymraeg i Blant'. The main focus of the TWF project was to highlight the value of the Welsh language and bilingualism to parents, prospective parents and the general population; and to encourage families to raise their children to be bilingual.

Although it was never operational in Rhondda Cynon Taf, an evaluation of the project showed that within the home, a number of factors influence language transmission, including high levels of parental Welsh language fluency and confidence in using Welsh, together with positive attitudes towards bilingualism. A strong sense of Welsh identity had a similar affirmative influence. Family and friends and childcare provision were also shown to affect the language patterns of families with small children.

As a matter of interest to the Rhondda Cynon Taf area, the language profile of a community and the status afforded to the Welsh language were both shown to be critical indicators of language transmission in the home. Where Welsh is perceived to have a strong presence in a community or a desirable language for social networks or activities, parents are more likely to express intentions to transmit Welsh to their children.

Since April this year, the TWF project has been replaced by the 'Cymraeg i Blant' scheme. Its aims are broadly similar with the main focus being on persuading parents to speak Welsh to their children or at least send their children to *cylchoedd meithrin* and then Welsh-medium schools. The main activities include setting up baby yoga and baby massage groups and 'stori a chân' (story and song) sessions. The aim is to provide opportunities for parents and families to learn about caring

techniques and parenting skills and to share information with them about the advantages of bilingualism and the benefits of Welsh-medium education.

'Cymraeg i Blant' sessions are currently held in the following locations and are supported by a full-time project officer working for the scheme in Rhondda Cynon Taf:

Aberdare

Pontypridd

Treorchy

Pontyclun

Porth

Gartholwg

Welsh for Adults

Following a major review of Welsh for Adults by ELWa in 2005, six Welsh for Adults Centres were established in order to bring together the broad range of Welsh language provision that existed at the time of the review with the intention of increasing numbers learning Welsh and raising standards. Prior to this structural change, Welsh for Adults courses had been an integral part of adult education provision offered by a range of providers, including local education authorities, further and higher education institutions and community and voluntary organisations.

The six Welsh for Adults centres which were established in 2006 were responsible for planning and delivery within their regions. A further review of Welsh for Adults by Welsh Government led to the publication of a report in July 2003 entitled [*Raising our Sights: Review of Welsh for Adults*](#). Some of the key recommendations of the report included the establishment of a National Centre for Learning Welsh, disbanding the Welsh for Adults Centres and reducing the number of providers through a competitive tendering process. The National Centre for Learning Welsh came into being in April 2016 and is responsible for all aspects of the Welsh for Adults education programme, from curriculum development and resources for tutors to research, marketing and e-learning.

Following the recent restructuring of providers, the Glamorgan Welsh for Adults Centre, which is based at the University of Glamorgan, Pontypridd has been awarded the contract to continue with the delivery of courses in the Rhondda Cynon Taf, Bridgend and Merthyr Tydfil area. These include intensive, residential and weekly courses aimed at the general public and more targeted learners like – parents/families and those wishing to learn Welsh in the workplace. The type of provision also varies from the traditional classroom delivery to e-learning and blended learning, which combines face to face classes with e-learning methods, and also informal learning which are non-structured activities in which learners take part outside the class, either alone or with a group.

According to figures received by the Welsh for Adults Centre, 696 learners attended the Centre's courses across Rhondda Cynon Taf in 2015/16 with 51% on starter courses. However, 49% were on intermediate courses or higher, and therefore have the potential to develop into confident Welsh speakers who can contribute to the development of the language in the community.

The target for 2016-17 is to increase the overall numbers attending Welsh for Adults courses to over 900.

Children, Young People and Families

Census results show that Rhondda Cynon Taf has seen a considerable increase in the number of children and young people able to speak Welsh over the last thirty years. Although these figures are very welcome, they need to be treated with some caution, as it appears that about half of these are second language learners who are unlikely to retain their language skills into young adulthood.

In addition to second language learners, the challenge of maintaining language skills to young adulthood is also true for those who have received Welsh-medium education and have left school with a good level of fluency. The reality is that for many Welsh-speaking children from homes without Welsh-speaking parents/carers, school provides them with one of the few opportunities to use the language. As a result, evidence shows that a lack of opportunities to use the language leads to a

lack of confidence and erosion of language skills. It is obvious therefore that the school setting alone is not enough; the child or young person needs to be supported at home (if possible) and encouraged to participate in wider social and cultural activities through the medium of Welsh to retain fluency in the language. There is also evidence that suggests that the language of interaction with friends is closely linked to the language the child or young person speaks, and that this also influences their attitudes towards either or both languages.

It has long been acknowledged by the Welsh Language Board during its existence and lately Welsh Government that we need to provide children and young people with a wide range of opportunities to use their Welsh outside school, so that they associate the language not only with education, but also with leisure and cultural activities and, above all, with fun and entertainment. It is hoped that by increasing the provision of Welsh-medium activities it increases the use of the language in the community and instils a sense of enthusiasm amongst children and young people and a positive attitude towards the language.

A great deal of work has already been done in the local authority area to provide children and young people with opportunities to enjoy activities through the medium of Welsh. This has been achieved by a number of organisations, some of which, like the Urdd and Menter Iaith Rhondda Cynon Taf are entirely focused on increasing the use of Welsh in the community and during out of school hours. The activities and proposals set out in this Promotions Strategy seek to build on this foundation and take advantage of the growing number of opportunities to use social media and communication technology to share information and knowledge and create vibrant networks of language users.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf already provide after-school care clubs in conjunction with the Welsh-medium primary schools and holiday play schemes during school holidays. They are also responsible for organising Language Forums in all the Welsh-medium secondary schools which provides young people with opportunities to discuss issues that affect them, to plan activities to promote the Welsh language and to receive information about possible career paths or apprenticeships that require bilingual skills.

The Urdd also provides a range of activities aimed at children and young people, including sports clubs like gymnastics, football, rugby, swimming along and keep-fit. They also run Welsh-medium community clubs in Pontypridd, Rhydywaun, Aberdare, Rhondda and Bro Taf.

Welsh in the Workplace

Rhondda Cynon Taf County Borough Council like all public bodies in Wales have been required to prepare Welsh Language Schemes since the passing of the Welsh Language Act in 1993 which gave the Welsh and English languages equal status in public life. The Act placed a duty on the public sector to treat both languages equally when providing services to the public. The schemes explained which services they would provide in Welsh and how an organisation would respond to phone calls, letters or emails from Welsh speakers. They also described how the Welsh language would be used on signs, forms and publications and how they would promote and facilitate the use of Welsh in the delivery of services.

The Borough Council produced and implemented three Welsh Language Schemes altogether between 1994-2016. Responsibility for monitoring compliance with the schemes lay with the Welsh Language Board up to 2014 and latterly with the Welsh Language Commissioner.

The Welsh Language Standards which have replaced the Welsh Language Schemes were prepared under the Welsh Language (Wales) Measures 2011 and the Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015 which came into force on 31st March 2015. The Measure created a procedure for introducing duties in the form of language standards that explain how organisations are expected to use the Welsh language and support the Welsh Government's aims of:-

- increasing and improving Welsh language services for the people of Wales;
- ensuring greater clarity and consistency in terms of the services that can be expected in Welsh;
- giving the people of Wales rights in terms of receiving services through the medium of Welsh.

The Measure gives the Welsh Language Commissioner authority to impose duties on a wide range of organisations to provide services in Welsh, to mainstream the language into policy development, and to develop strategies with regard to increasing the use of Welsh at work.

The authority's action plan which outlines how it intends complying with the standards imposed by the Welsh Language Commissioner was approved by Council in June 2016. The Council's commitments under the Welsh Language Standards have already been integrated into the authority's planning documents including the Improvement Plan 2015, the Council's Strategic Equality Plan, the Welsh in Education Strategic Plan (WESP) and recent Welsh Government legislation - Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015 and the Social Care and Well-being Act, 2016.

Rhondda Cynon Taf Council is committed to creating an environment which encourages residents to use Welsh in their interaction with the Council and supporting staff to use Welsh in the workplace. In order to achieve these aims, the Council established a Welsh Language Cabinet Steering Group as a sub-committee of the Council's Cabinet in 2014. It is a cross-party group with community representation. The Steering Group oversees developments, considers reports from relevant departments on Welsh language issues, makes recommendations to the Council's Cabinet and monitors council-wide developments. It has recently assumed responsibility for assessing the Welsh Language Action Plan, monitoring the Council's progress as it seeks to meet the Welsh Language Standards and also for developing the required 5-year Promotion Strategy.

A Chief Officer Working Group has also been established to ensure that the required operational changes are implemented and monitored in addition to securing a collaborative approach that will support services to address any areas for improvement and to record and respond to customer complaints.

Strategic support is also provided by a wide range of partners through the Fforwm Iaith (Welsh Language Forum) who mainly focuses on community based activities and Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg (Welsh in Education Strategic Committee) who monitor progress on the development of Welsh-medium education and teaching Welsh to Adults.

A draft policy to promote the Welsh language in the workplace has already been drawn up for approval by Cabinet and badges and lanyards denoting ability to speak Welsh have been distributed to staff. Posters (*Hapus i siarad Cymraeg*) which encourage visitors to use Welsh have been put up in all Reception areas and a number of promotional materials have been produced helping staff to access an on-line translation service, a mouse mat with simple Welsh greetings and a booklet entitled *Being Bilingual*.

Strategaeth
Hybu'r Gymraeg

Welsh Language
Promotion Strategy

Rhondda Cynon Taf



1. Cyflwyniad

Mae datblygu strategaeth 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg yn ofyniad strategol yn ymwneud â Mesur y Gymraeg (Cymru) a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011.

Mae'r Mesur yn cynnwys:

- rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru sy'n golygu na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg sydd â chyfrifoldeb dros hybu'r Gymraeg a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio;
- creu gweithdrefn ar gyfer cyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith sy'n esbonio'r ffordd y disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg a chreu hawliau ar gyfer siaradwyr Cymraeg;
- gwneud darpariaeth parthed hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a chynyddu ei defnydd mewn bywyd bob dydd;
- gwneud darpariaeth parthed ymchwilio i amharu ar y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Mesur yn rhoi awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg gyflwyno dyletswyddau i ystod eang o sefydliadau ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, i brif ffrydio'r iaith mewn datblygiad polisi, ac i ddatblygu strategaethau yn ymwneud â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.

Ynghyd â'r holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio Statudol yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 30 Medi 2015. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn ddogfen sydd wedi ei chyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg yn amlinellu'r 171 o Safonau penodol y bydd angen i Gyngor RCT gydymffurfio â nhw yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau Cymraeg.

Effaith ar y cyd yr Hysbysiad Cydymffurfio a'r Safonau yw y bydd angen mwy o gydymffurfio gan y Cyngor yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg – p'un ai ar bapur, ar y rhyngrwyd, y cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau rhwyngweithiol, neu sgysiau wyneb yn wyneb/dros y ffôn. Bydd methu cydymffurfio yn rhoi'r Cyngor mewn perygl sylweddol o gael cosbau sifil sydd yn gallu cynnwys dirwyon o hyd at £5,000 y tro.

Safonau'r Gymraeg yw'r fframwaith newydd ar gyfer ymestyn y defnydd o'r Gymraeg a disodli Cynlluniau blaenorol y Gymraeg. Mae'r dyletswyddau a ddaw o'r Safonau yn berthnasol i'r meysydd gweithredol canlynol:

- Cyflenwi gwasanaethau cyfrwng Cymraeg
- Gwneud polisiau sydd yn hybu'r Gymraeg
- Gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cadw cofnodion am y Gymraeg, ac yn olaf
- Hybu'r Gymraeg.

Mae Safon 145 (Hybu) yn datgan bod yn rhaid i bob awdurdod lleol greu, a chyhoeddi ar eu gwefan, strategaeth 5 mlynedd sydd yn nodi'r ffordd y maent yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardal; ac mae'n rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg materion eraill):

- targed (o ran canran y siaradwyr yn yr ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y 5 mlynedd berthnasol;
- datganiad yn nodi sut maent yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a
- adolygiad o'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn diwygiedig ar eu gwefan o fewn 5 mlynedd o gyhoeddi strategaeth (neu gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig).

Mae safonau hybu'r Gymraeg yn cyflwyno dyletswyddau i awdurdodau lleol ar draws Cymru hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang ac i gefnogi ac annog ei defnydd yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

2. Cefndir

Mae Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf yn cwmpasu ardal Cymoedd De Cymru yn ymestyn o Fannau Brycheiniog yn y gogledd, i gyffiniau Caerdydd yn y de. Mae'n cynnwys cymysgedd o gymunedau trefol, lled-faestrefol a gwledig, wedi eu lleoli mewn mynyddoedd ac iseldir fferm.

Rhondda Cynon Taf yw'r trydydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru, wedi ei ffurfio ym 1996 o gyn-fwrdeistrefi Rhondda, Cwm Cynon a Thaf Elái (rhan). Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cwmpasu ardal o 424 cilometr sgwâr gyda phoblogaeth o 234,400 (2011). Mae gan yr ardal 75 ward etholaethol, y mae 22 ohonynt yn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Rhwng 2001 a 2011, tyfodd y boblogaeth 1.06%, o'i gymharu â chynnydd o 5.5% ar draws Cymru. Rhwng 2001 a 2011, cafwyd gostyngiad ar gyfartaledd o 14% yn nifer y plant 5-14 oed, gyda nifer y bobl 65 oed ac yn hŷn yn cynyddu bron 7% yn yr un cyfnod. Ymddengys y bydd y duedd hon yn parhau, gyda'r rhagfynegiad y bydd nifer y bobl sydd yn 85 oed ac yn hŷn yn dyblu erbyn 2033. RCT yw'r trydydd awdurdod lleol mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl mesuriad gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2011) ac mae ganddo'r disgwyliad oes isaf yng Nghymru.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae 73% o drigolion Rhondda Cynon Taf yn weithgar yn economaidd o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 75%, ond mae gan y cymoedd canolog a gogleddol lefelau uwch na'r cyfartaledd o bobl sydd yn hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith yng Nghymru. Mae strwythur cyflogaeth Rhondda Cynon Taf wedi ei reoli gan dri sector, sef 'gweinyddiaeth gyhoeddus', 'cynhyrchu' a 'dosbarthu, gwestai a bwytai'. Gyda'i gilydd, mae'r tri yma'n rhoi cyfrif am 74% o'r holl swyddi sydd ar gael yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r prif dueddiadau cymdeithasol yn dangos bod 27% o drigolion Rhondda Cynon Taf yn dioddef salwch hirdymor cyfyngus o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 23% yn unig. Yn ogystal, nid oes gan 41% o

drigolion Rhondda Cynon Taf unrhyw gymwysterau academaidd o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 33%.

Yn ôl ffigurau cyfrifiad 2011, mae 27,779 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn Rhondda Cynon Taf sydd yn cynrychioli 12.3% o gyfanswm y boblogaeth. Ceir proffil iaith manylach o'r fwrdeistref sirol yn Adran 4 isod.

3. Cyd-destun Polisi

Er bod Safonau'r Gymraeg yn ddatblygiad cymharol ddiweddar, mae wedi bod yn ofynnol ar awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i gynhyrchu Cynlluniau Iaith Gymraeg ers pasio Deddf yr Iaith Gymraeg ym 1993 oedd yn pennu y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal.

Ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, cafwyd llond gwlad o bolisiau a strategaethau â'r nod o gynyddu'r niferoedd sydd yn gallu siarad Cymraeg a hybu ei defnydd ym mywyd bob dydd. Er enghraifft, yn 2003, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun cenedlaethol i greu Cymru ddwyieithog o'r enw *Iaith Pawb*. Yn y cyflwyniad i'r cynllun, dywedodd Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru ar y pryd -'*Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru fod y Gymraeg yn rhan annatod o'n hunaniaeth genedlaethol. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol ac oesol o hanes, diwylliant a gwedd cymdeithasol ein cenedl. Rhaid i ni barchu'r etifeddiaeth honno a gweithio i sicrhau nad yw'n cael ei cholli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*' Aeth y cyflwyniad ymlaen i ddweud bod '*Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i arwain y gwaith o gefnogi a hybu'r Gymraeg.....[a] byddwn yn gwneud y cyfan sydd o fewn ein gallu i greu'r amodau cywir lle y gall yr iaith Gymraeg dyfu a blodeuo ym mhob agwedd o fywyd Cymru.*'

Dyma'r tro cyntaf yn hanes hir y genedl y mae llywodraeth wedi ymrwymo i'r egwyddor o greu Cymru gwbl ddwyieithog. Mae'r weledigaeth a gyflwynir yn *Iaith Pawb* yn un o wlad - '*Ile gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg a lle mae presenoldeb y ddwy iaith yn ffynhonnell amlwg a hyglyw o falchder a chryfder i bob un ohonom.*'

Un o'r prif ddogfennau polisi oedd yn ategu'r weledigaeth hon oedd *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru* a lansiwyd yn 2010. Roedd Leighton Andrews, y Gweinidog Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd, eisiau creu system addysg a hyfforddiant - '*sy'n ymateb i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu*

defnyddio'r iaith yn eu cymunedau, gyda'u teuluoedd ac yn y gweithle.' Mae'r strategaeth yn datgan yn glir bod – 'Addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar, gyda dilyniant ieithyddol cadarn drwy bob cyfnod addysg, yn cynnig yr amodau gorau ar gyfer meithrin dinasyddion dwyieithog y dyfodol. Mae datblygu sgiliau iaith yn broses sy'n digwydd dros gyfnod o amser.'

Er mwyn datblygu addysg cyfrwng Cymraeg, mae wedi bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol greu fframwaith trwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) sy'n disgrifio'r ffordd y byddant yn cyfrannu at y canlyniadau a'r targedau a nodir yn *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* trosfwaol Llywodraeth Cymru. Nod Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 oedd datblygu'r WESP anstatudol blaenorol trwy roi safle statudol iddynt. Roedd y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori ar, creu a chyhoeddi Cynllun Strategol pum mlynedd y Gymraeg mewn Addysg i gael ei gyflwyno i gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Ym mis Ebrill 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Strategaeth y Gymraeg* o'r enw - '*iaith fyw: iaith byw 2012-1017*'. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer cynyddu nifer y bobl sydd yn siarad ac yn defnyddio'r iaith. Mae'n datblygu'r weledigaeth a amlinellwyd yn '*iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog*' a gyhoeddwyd yn 2003.

Mae'r ddogfen yn amlygu pwysigrwydd system addysg cyfrwng Cymraeg gref fel sylfaen hirdymor ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws ystod o feysydd cymdeithasol. Yn yr un modd, mae hefyd yn nodi nad yw'r system addysg ar ei phen ei hun yn ddigon i gynhyrchu siaradwyr Cymraeg sydd yn gweld gwerth yn defnyddio'r iaith yn eu bywyd bob dydd gartref, yn gymdeithasol neu'n broffesiynol.

Mae dwy elfen graidd i'r strategaeth, sef yn gyntaf i annog plant a phobl o bob oed i gaffael yr iaith, fel annog trosglwyddo'r iaith yn y cartref, gan sicrhau twf pellach mewn addysg cyfrwng Cymraeg a Chymraeg i Oedolion, ac yn ail, creu cyfleoedd i

bobl ddefnyddio'r iaith yn ddyddiol, nail ai'n gymdeithasol, yn y gwaith, wrth dderbyn gwasanaethau neu wrth fwynhau adloniant a hamdden.

Mae chwe nod i'r strategaeth:

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd;
- cynyddu darpariaeth gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith;
- cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned;
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;
- gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion;
- cryfhau'r isadeiledd ar gyfer yr iaith, yn cynnwys technoleg ddigidol.

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi yn datblygu sylfeini'r strategaeth wreiddiol o'r enw - '*iaith fyw: iaith byw - Symud Ymlaen*' sydd yn nodi amcanion polisi'r llywodraeth ar gyfer y Gymraeg hyd at 2017. Cafodd y diwygiadau hyn eu llywio gan nifer o ddatblygiadau ers ei lansio oedd yn cynnwys cyhoeddi canlyniadau cyfrifiad 2011 a chyfres o drafodaethau ac adolygiadau polisi lefel uchel.

Yng ngoleuni hyn, mae'r llywodraeth wedi nodi pedair thema i ganolbwyntio arnynt ar gyfer y tair blynedd nesaf:

- Yr angen i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr economi a'r iaith Gymraeg sy'n cydnabod y synergedd rhwng meithrin twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth, a lles y Gymraeg;
- Yr angen am gynllunio strategol gwell ar gyfer yr iaith Gymraeg gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyreff cyhoeddus eraill;
- Yr angen i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned gyda ffocws penodol ar gynyddu nifer y bobl sydd yn dysgu Cymraeg trwy'r system addysg a hyfforddiant a throi'r dysgwyr hynny yn siaradwyr;
- Yr her o newid ymddygiad ieithyddol trwy fod yn fwy cadarnhaol ac yn llai negyddol am y ffordd yr ydym yn siarad ac yn teimlo am yr iaith.

Cafodd y Fframwaith Strategol *Mwy na Geiriau/More than Words* ei llunio gan Lywodraeth Cymru yn 2012 gyda'r nod o gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae'r fframwaith yn darparu dull systematig o wella gwasanaethau ar gyfer y rheiny sydd angen neu'n dewis derbyn eu gofal yn Gymraeg. Mae'n cydnabod i lawer o siaradwyr Cymraeg bod angen i'r gallu i ddefnyddio eich iaith eich hun gael ei weld fel cydran graidd o ofal, nid yn ddewis ychwanegol.

Mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau yn agored iawn i niwed, felly mae rhoi'r cyfrifoldeb o ofyn am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn annheg. Mae'r her o ddatblygu'r 'Cynnig Gweithredol', sef bod aelodau o'r staff yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i gleifion, yn hytrach nag aros i gleifion ofyn amdanynt, yn ganolog i'r strategaeth.

Cafodd y strategaeth ei diweddarau yn 2016 gyda '*Mwy na geiriau... fframwaith strategol olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019*'. Nod pennaf y fframwaith strategol olynol yw sicrhau y bydd GIG Cymru, y gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol wedi prif ffrydio'r Gymraeg i bron bob agwedd ar eu busnes o ddydd i ddydd. Bydd hyn yn cynnwys cydnabod bod llawer o bobl agored i niwed, fel pobl hŷn sy'n dioddef o ddementia neu strôc hefyd yn colli eu hail iaith ac mai dim ond Cymraeg mae llawer o blant bach yn ei siarad. Mae hefyd yn amlygu'r ffaith fod gofal ac iaith yn mynd law yn llaw ac y gellir peryglu ansawdd gofal trwy fethu cyfathrebu gyda phobl yn eu hiaith gyntaf.

Cyhoeddwyd *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* gan Lywodraeth Cymru i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a chael ymagwedd fwy cydlynus tuag at gynaliadwyedd. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant, yn cynnwys –
'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac

sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.'

Mae'r Ddeddf yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru a hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob BGC wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal trwy geisio cyflawni'r nodau llesiant.

Yn olaf, cafodd drafft o strategaeth newydd yn dilyn ymlaen o'r strategaeth bresennol - *'Iaith fyw: iaith byw 2012-2017'* ei lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni eleni gyda'r nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2051. Yn y Rhagair i'r strategaeth ddrafft, mae Alun Davies AC, y Gweinidog Dysgu Gydol Oes a'r Gymraeg yn datgan yn glir mai - *'Ein huchelgais ni fel Llywodraeth yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Does dim dwywaith fod hon yn uchelgais heriol, ond rwy'n grediniol fod angen i ni osod uchelgais o'r fath os ydym am wneud gwahaniaeth gwirioneddol i sefyllfa'r Gymraeg.....Er mwyn i ni gyflawni hynny, credwn fod angen i sawl peth ddigwydd: mwy o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg, cynllunio gwell mewn perthynas â'r ffordd y mae pobl yn dysgu'r iaith, cyfleoedd mwy hygyrch i bobl ddefnyddio'r iaith, seilwaith cryfach a chwyldro i wella darpariaeth ddigidol yn y Gymraeg, a gweddnwid y ffordd yr ydym yn siarad amdani.'*

Mae'r strategaeth yn cynnwys chwe maes datblygu:

- Polisi Cynllunio ac Iaith
- Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg
- Addysg
- Pobl
- Cefnogaeth
- Hawliau

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd ymatebion i'r ddogfen ymgynghori erbyn 31 Hydref.

4. Proffil y Gymraeg: Rhondda Cynon Taf

Dangosodd canlyniad cyfrifiad 2011 ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru er 2001, a oedd hefyd wedi ei adlewyrchu yn Rhondda Cynon Taf, fel y dengys y tabl isod:

Tabl 1: Nifer a Chanran y Siaradwyr Cymraeg yn 2001 a 2011

	Nifer y Siaradwyr Cymraeg		Canran y Siaradwyr Cymraeg	
	2001	2011	2001	2011
Rhondda Cynon Taf	27,946	27,779	12.5	12.3
Cymru	582,368	562,016	20.8	19.0


Mae'r ffigurau'n dangos bod 167 yn llai o siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn 2011 nag yn 2001; roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg hefyd wedi gostwng 0.2%. Er bod y data'n dangos tuedd am i lawr, mae'n ddigon tenau i awgrymu bod y sefyllfa gyffredinol yn ddigon sefydlog. Er nad yw'r dirywiad mor ddifrifol ag mewn rhannau eraill o Gymru, mae angen mynd i'r afael â hi er mwyn osgoi gwanhau sylfaen yr iaith ymhellach.

Yn ddiweddar, comisiynodd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf Broffil Cymraeg yr ardal er mwyn iddi gynllunio'n strategol ar gyfer twf yr iaith a gweithredu fel partner dylanwadol yn y broses adfywio. Mae'r proffil iaith yn cynnwys mapiau a thablau defnyddiol yn dangos dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg, eu proffil oed a phatrymau eu defnydd o'r iaith. Mae'r map isod, sydd wedi ei gymryd o'r proffil iaith, yn dangos ble mae'r rheiny sydd yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg

yn byw, gyda'r ardaloedd tywyllach yn dangos ble ceir y gyfran uchaf o siaradwyr
Cymraeg:

Rhondda Cynon Taf

Table: Welsh language skills
KS207WA0014 (Can speak, read and write Welsh)



The maps show percentages within Census 2011 output areas, within electoral divisions

Map created by Hywel Jones. Variables KS208WA0022-27 corrected

Contains National Statistics data © Crown copyright and database right 2013; Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2013

Mae'r map uchod yn dangos bod lledaeniad y rheiny sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn weddol gyfartal, ond mae'n amlwg bod y prif ardaloedd lle mae'r dwysedd mwyaf yn tueddu i fod yn ne a gogledd y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r tabl isod yn dangos yn fanylach y boblogaeth gyffredinol yn ôl Cymuned yn Rhondda Cynon Taf a chanran a niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011. Cyflwynir y cymunedau mewn trefn ddisgynnol gan ddechrau gyda'r rheiny â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg:

Tabl 2: Niferoedd a Chanran y Siaradwyr Cymraeg yn ôl Cymuned

Cymuned	Poblogaeth dros 3 blynedd	Nifer y siaradwyr Cymraeg	% y siaradwyr Cymraeg
Llanilltud Faerdre	14,587	2,501	17.1
Hirwaun	4,799	788	16.4
Pont-y-clun	7,730	1,232	15.9
Treherbert	5,503	857	15.6
Rhigos	869	135	15.5
Ynys-y-bwl a Choed-y-cwm	4,484	676	15.1
Ffynnon Taf	3,522	528	15.0
Treorci	7,465	1,085	14.5
Llwydcoed	1,271	183	14.4
Llantrisant	14,731	2,068	14.0
Llanhari	3,460	482	13.9
Porth	5,764	769	13.3
Llanharan	6,969	909	13.0
Pontypridd	31,538	3,978	12.6
Ystrad	5,652	692	12.2
Pentre	5,035	610	12.1
Glynrhedynog	4,034	478	11.8
Aberdâr	14,054	1,625	11.6
Ynys-hir	3,185	361	11.3
Tonyrefail	11,852	1,286	10.9
Cwm-bach	4,229	448	10.6

Pen-y-waun	2,913	305	10.5
Aberpennar	7,114	740	10.4
Tylorstown	4,368	443	10.1
Tonypandy	3,609	353	9.8
Maerdy	3,046	296	9.7
Pen-y-graig	5,330	497	9.3
Aberaman	9,411	870	9.2
Cymer	4,605	423	9.2
Llwynypia	2,178	198	9.1
Trehafod	678	62	9.1
Abercynon	6,125	552	9.0
Cwm Clydach	2,695	238	8.8
Penrhiwceiber	5,564	491	8.8
Trealaw	3,871	334	8.6
Gilfach-goch	3,315	286	8.6

Mewn gwrthgyferbyniad â'r tabl uchod a nododd gymunedau â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, mae'r tabl isod yn dangos rhai o'r cymunedau â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yn ôl cyfrifiad 2011 a'r newid yn y ganran er 2001:

Tabl 3: Cymunedau â'r Nifer Uchaf o Siaradwyr Cymraeg

Cymuned	Nifer y siaradwyr Cymraeg	Canran y siaradwyr Cymraeg	% y newid er 2001
Pontypridd	3,978	12.6	-0.2
Llanilltud Faerdre	2,501	17.1	+2.6
Llantrisant	2,068	14.0	-0.2
Aberdâr	1,625	11.6	-2.4
Pont-y-clun	1,232	15.9	+1.1

Mae'n amlwg bod gan y cymunedau hyn, ynghyd â Thonyrefail a Threorci, sydd hefyd â thros 1,000 o siaradwyr Cymraeg, rôl bwysig i'w chwarae fel canolfannau iaith allweddol yn y dyfodol.

Tabl 4: Cymhariaeth yn niferoedd/canrannau ar draws ystodau oedran - rhwng 2001 a 2011


Grŵp Oedran	% y siaradwyr Cymraeg 2001	% y siaradwyr Cymraeg 2011	Nifer y siaradwyr Cymraeg 2001	Nifer y siaradwyr Cymraeg 2011
Pawb (dros 3)	12.5	12.3	27,946	27,779
3-4 oed	16.7	20.3	982	1,137
5-9 oed	27.4	30.7	4,104	4,028
10-14 oed	34.2	34.2	5,606	4,750
15-19 oed	27.1	26.5	4,081	3,942
20-24 oed	14.3	15.7	2,060	2,541
25-29 oed	10.6	14.6	1,514	2,158
30-34 oed	7.9	12.5	1,302	1,769
35-39 oed	6.6	9.7	1,124	1,413
40-44 oed	5.9	6.8	913	1,143
45-49 oed	5.8	5.6	834	934
50-54 oed	5.4	4.8	880	732
55-59 oed	5.3	4.6	723	636
60-64 oed	5.0	4.3	586	665
65-69 oed	5.3	4.5	560	544
70-74 oed	6.3	3.7	592	363
75-79 oed	8.9	4.0	747	309
80+ oed	14.4	6.9	1,338	715

Mae'r data uchod yn dangos bod proffiliau oed siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf yn amrywio'n sylweddol. Nid yw'n syndod efallai bod y canrannau uchaf ymysg y grwpiau oedran iau sydd yn pwysleisio dylanwad y system addysg, yn arbennig twf ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, mae angen rhybudd iechyd i gyd-fynd â'r ffigurau hyn am fod y gyfran a ddynodir fel siaradwyr Cymraeg yn 2011 yn y grŵp oedran 5-9 oed (30.7%) lawer yn uwch na'r rheiny yn yr un grŵp oedran mewn addysg cyfrwng Cymraeg (20%), sydd yn fesur llawer mwy realistig o allu ieithyddol. Mae'r ffigur chwyddedig mwy na thebyg yn adlewyrchu asesiadau ieithyddol rhieni y mae eu plant yn astudio Cymraeg fel ail iaith a gallai fod yn rhy optimistaidd o ran eu sgiliau iaith cyffredinol.

Mae'n galonogol, fodd bynnag, nodi bod tua thraean o bobl ifanc 10-14 oed wedi eu cofnodi fel siaradwyr Cymraeg. Ond, mae'n peri pryder nad yw'r sgiliau dwyieithog sy'n cael eu caffael yn yr ysgol yn cael eu cynnal i'r un graddau pan yn oedolion ifanc. Mae'r ffigurau yn dangos, er enghraifft, bod 34.2% o blant yn y grŵp oedran 10-14 oed yn 2001 yn siarad Cymraeg yn rhugl, ond dim ond 15.7% o'r un garfan, ddeng mlynedd yn ddiweddarach yn 2011 a gyfaddefodd fod ganddynt sgiliau Cymraeg. Mae hyn, eto, yn rhannol, yn adlewyrchu'r asesiad rhy optimistaidd o bosibl o sgiliau iaith gan rieni ond mae hefyd yn dangos pa mor gyflym y mae sgiliau iaith yn gallu erydu os na chânt eu cynnal yn weithredol.

Mae'r graff isod yn amlygu hyn yn glir trwy ddangos bod patrwm dirywiad yr iaith ymysg y grwpiau oedran ôl-16 yn weddol gyson yn ôl canlyniadau'r cyfrifiad dengmlwyddol mwyaf diweddar. Gellir gweld y brigau yn 10-14 oed yn glir yn 2001 a 2011, wedi ei ddilyn gan ddirywiad dramatig yn y defnydd o iaith mewn grwpiau oedran wedi hynny nes bod ymchwydd bach yn dod yn amlwg eto ymysg siaradwyr oedrannus, er nad yw hyn mor amlwg yn 2011 ag yr oedd ddegawd ynghynt. Yn anffodus, mae'r dirywiad ailadroddus hwn ym mhatrwm yr iaith wedi bodoli am yn rhy hir ac mae angen i gynllunwyr iaith fynd i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth er mwyn i fuddsoddiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg greu canlyniadau hirdymor gwell o ran defnydd yn y gymuned.

Graff 1: Canran sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl grwpiau oedran yn seiliedig ar ffigurau cyfrifiad 2001 a 2011



Mae'r graff uchod yn dystiolaeth pur o duedd gylchol sy'n peri pryder o gyfleoedd coll. Yn amlwg mae cannoedd o bobl ifanc oedd â sgiliau dwyieithog ychydig flynyddoedd yn ôl wedi gadael i'r sgiliau hynny erydu i'r fath raddau nad ydynt bellach yn weithredol. Mae hyn yn anochel yn arwain at ddiffyg hyder yn defnyddio'r sgiliau hynny ac amgyffrediad gan ddefnyddwyr nad oes ganddynt unrhyw werth na rhinwedd pellach. Mae hyn yn ddi-os yn siomedigaeth fawr i'r rheiny sy'n ymwneud â hybu'r iaith; ar y llaw arall, byddai ceisio ail-ymgysylltu'r oedolion hynny â'r Gymraeg er mwyn iddynt adennill eu medrusrwydd yn yr iaith, yn her gwerth chweil a boddhaus. Mewn un ffordd, byddai'n broses llawer symlach nag addysgu rhywun i siarad Cymraeg o'r cychwyn. Trwy dargedu'r siaradwyr hyn sydd wedi llithro, mae'r potensial ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ac annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn y gymuned a'r gweithle yn enfawr. Caiff y dull hwn sydd wedi ei dargedu ei astudio'n fanylach yn nes ymlaen.


